



# Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

## Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Canllaw Arfer Gorau Rhif 11.

Ebrill 2024

# Varroa

Mae'n bwysig gallu adnabod a rheoli gwiddon *Varroa* mewn nythfeydd gwenyn mêl. Os na chaiff nifer y gwiddon ei reoli, gall nythfa chwalu o fewn dwy i dair blynedd. Diben y ffeithlen hon yw rhoi trosolwg o fioleg *Varroa* a'r arferion gorau ar gyfer rheoli *Varroa*.

### Adnabod eich gelyn

- Mae'r gwiddonyn parasitig, *Varroa destructor*, yn ymborthi ar storfa braster (organ mewnol gwenynen fêl sy'n debyg i iau/afu dynol) mag gwenyn mêl sy'n datblygu. Mae'n lleihau hyd oes y wenynen sy'n datblygu ac yn trosglwyddo'r pathogen feirysol angheuol, feirws adenydd wedi'u hanffurfio.
- Gall lefelau uchel o'r feirws hwn ladd chwilerod neu achosi adenydd wedi'u hanffurfio mewn gwenyn llawndwf. Bydd gwenyn sy'n ymddangos ag adenydd wedi'u hanffurfio yn marw o fewn dau i dri diwrnod ar ôl ymddangos. Mae'n bosibl y bydd gan wenyn hyd yn oed iach yr olwg lefelau uchel o'r feirws, a all achosi problemau dysgu a chofio.
- Gall gwiddon *Varroa* atgenhedlu mewn mag gwenyn gweithgar a gwenyn gormes, ond mae'n well ganddynt fag gwenyn gormes am ei bod yn cymryd mwy o amser iddo ddatblygu, sy'n cynyddu llwyddiant atgenhedlol y gwiddon.
- Ar gyfartaledd, gall pob gwiddonyn benyw sydd wedi paru esgor ar 1.5 gwiddonyn newydd mewn mag gwenyn gweithgar a 2.6 gwiddonyn newydd mewn mag gwenyn gormes; a gall gwblhau hyd at dri chylch atgenhedlu. Mae hyn yn golygu y gall poblogaethau gwiddon ddyblu, fwy neu lai, bob cylch mag.
- Fel arfer, mae poblogaeth mag gwenyn mêl yn cyrraedd ei hanterth ym mis Gorffennaf. Ar ôl cyrraedd ei hanterth, mae poblogaeth mag gwenyn mêl yn

dechrau lleihau, ond mae poblogaeth y gwiddon yn parhau i gynyddu am fod digonedd o fag i atgenhedlu ynddo. Mae hyn yn golygu y gall lefelau uchel o bla godi'n gyflym ym mis Awst, pan fydd y gwenyn gaeaf yn datblygu. Gall niwed a achosir i'r storfa braster gan *Varroa* leihau hyd oes gwenyn gaeaf. Mae hyn yn golygu y gall pla sylweddol yn y nythfa yn ystod mis Awst gynyddu'r risg y bydd nythfa aeaf yn chwalu. Felly, mae'n arbennig o bwysig rheoli poblogaethau gwiddon ar yr adeg hon.

- Efallai na fydd pla *Varroa* heb ei reoli yn lladd nythfeydd yn y flwyddyn gyntaf, ond mae'n debygol o achosi i nythfeydd chwalu ar ôl dwy i dair blynedd. Ceir rhywfaint o amrywio o ran faint o widdon y gall nythfa eu goddef, gyda rhai nythfeydd yn ildio i effeithiau *Varroa* yn gyflymach nag eraill.
- Pan fydd nythfa yn chwalu am fod gormod o widdon *Varroa* ynddi, bydd unrhyw wenyn llawndwf sy'n dal yn fyw yn cario gwiddon fforetig o hyd. Gall y gwenyn hyn ryngweithio â nythfeydd a gwenynfeydd cyfagos, drwy ddwyn neu ddrifftio. Gall hyn arwain at ledaenu gwiddon i nythfeydd cyfagos, sy'n gwaethygu'r pla yn y nythfeydd hyn. Am y rheswm hwn, argymhellir y dylid trin pob nythfa mewn gwenynfa ar gyfer *Varroa* ar yr un pryd; er y gall nifer y gwiddon ym mhob nythfa amrywio.



Chwith: Gwiddonyn *Varroa destructor* benyw  
Dde: Gwenynen fêl ag adenydd wedi'u hanffurfio

### Rheoli plâu integredig

- Mae rheoli plâu integredig yn cynnwys defnyddio dulliau rheoli gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn er mwyn cadw lefelau *Varroa* islaw trothwy sy'n niweidio'r nythfa.
- Yr opsiynau o ran triniaeth yw gwiddonladdwyr, sy'n defnyddio cynhwysyn actif i ladd gwiddon neu opsiynau hwsmonaeth sy'n cynnwys dulliau seiliedig ar hwsmonaeth o darfu ar gylch oes y gwiddon.
- Mae dulliau hwsmonaeth effeithiol ar gyfer rheoli gwiddon yn cynnwys tynnu mag gwenyn gormes neu ddal y frenhines. I gael gwybodaeth fanylach, darllenwch ein ffeithlenni ar [dynnu mag gwenyn gormes](#) a [dal breninesau](#).
- Mae gwaith monitro yn allweddol i ddefnyddio'r dechneg rheoli plâu integredig yn llwyddiannus. Mae monitro yn bwysig er mwyn sicrhau bod triniaethau ond yn cael eu defnyddio pan fo angen.
- Gellir defnyddio cyfuniad ystyriol o ddulliau hwsmonaeth a gwiddonladdwyr er mwyn rheoli lefelau gwiddon yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Er enghraifft, mae defnyddio triniaeth asid ocsalig ar nythfeydd nad oes ganddynt unrhyw fag o ganlyniad i ddal y frenhines neu ddefnyddio triniaeth ysgwyd haid yn y gwanwyn yn fwy effeithiol gyda'i gilydd na'r naill strategaeth neu'r llall ar ei phen ei hun.

## Monitro lefelau pla *Varroa*

- Nid yw'n bosibl dileu *Varroa*. Byddant bob amser yn bresennol mewn nythfeydd gwenyn mêl. Fel arfer, argymhellir y dylid cadw poblogaethau *Varroa* islaw 1,000 o widdon er mwyn atal y nythfa rhag cael ei niweidio'n ddifrifol. Mae lefel o tua 2,500 o widdon yn achosi niwed anwrthdroadwy ac yn peri risg sylweddol y bydd y nythfa yn chwalu.
- Mae monitro lefelau pla yn bwysig er mwyn sicrhau bod triniaethau yn cael eu rhoi ar yr adeg briodol. Mae dulliau yn cynnwys: cyfrif y gollyngiad gwiddon dyddiol, tynnu capiau mag gwenyn gormes a golchi gwenyn llawndwf ag ethanol neu eu rhoio mewn siwgr. Disgrifir y dulliau hyn yn fanylach yn y ffeithlen, '[Amcangyfrif poblogaethau gwiddon \*Varroa\*](#)'.
- Gellir gwneud gwaith monitro drwy gydol y flwyddyn ond mae rhai adegau allweddol pan fydd yn arbennig o bwysig, sef:
  - Ym mis Chwefror a mis Mawrth: mae'n bwysig sicrhau bod poblogaeth y gwiddon mor fach â phosibl ar ddechrau'r tymor cyn i'r nythfa ehangu a chyn i'r lloffydd mêl gael eu hychwanegu. Bydd presenoldeb lloffydd mêl yn cyfyngu ar yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.
  - Ar ddiwedd y gwanwyn: bydd lefelau gwiddon yn dyblu bob cylch mag mewn nythfeydd cryf. Bydd gwaith monitro yn helpu i ganfod yr adeg gywir i ddefnyddio dulliau hwsmonaeth i reoli lefelau gwiddon, sydd fwyaf priodol yn ystod y cyfnod hwn, fel arfer.
  - Ar ddiwedd mis Gorffennaf: mae gwaith monitro yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lefelau isel o widdon yn bresennol pan fydd y gwenyn gaeaf yn dechrau datblygu ym mis Awst. Os bydd angen trin y nythfa ym mis Gorffennaf, dim ond un gwiddonladdwr (MAQS) y gellir ei ddefnyddio pan fydd lloffydd mêl yn bresennol, neu rhaid i'r mêl gael ei gynaeafu cyn defnyddio'r driniaeth. Noder na all MAQS gael ei ddefnyddio pan fydd y tymereddau allanol yn uwch na 30°C.
  - Ym mis Hydref: bydd asesu effeithiolrwydd y driniaeth a roddwyd ar ddiwedd yr haf neu yn yr hydref yn helpu i nodi a oes angen trin y nythfa ag asid ocsalig yn y gaeaf.
- Wrth archwilio nythfeydd yn ystod y tymor, edrychwch i weld a oes arwyddion cynnar o niwed i fag a achoswyd gan syndrom gwiddon parasitig ac archwiliwch wenyyn llawndwf i weld a yw eu hadenydd wedi'u hanffurfio, sy'n arwydd o lefelau uchel o feirws adenydd wedi'u hanffurfio (DWV). Gall hyn helpu i nodi a oes angen rhoi triniaeth frys i'r nythfa.

## Defnyddiwch widdonladdwyr cymeradwy

- Ceir rhestr gyfredol o'r holl widdonladdwyr a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y DU ar [wefan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol](#).
- Gellir dosbarthu gwiddonladdwyr yn ddau fath o gynhyrchion, sef: y rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid synthetig fel eu cynhwysyn actif a'r rhai sy'n deillio o asidau organig neu olewau naws.
- Ni ellir defnyddio gwiddonladdwyr synthetig droeon am fod y gwiddon yn datblygu ymwrthedd iddynt yn gyflym. Plaleiddiaid synthetig sydd ar gael ar hyn o bryd i'w defnyddio yn y DU yw Apivar, Apitraz ac Apistan. Mae'n bwysig defnyddio'r cynhyrchion hyn yn gynnil a dylech bob amser eu defnyddio bob yn ail â chynnyrch arall.
- Mae gwiddonladdwyr nad ydynt yn cynnwys plaleiddiaid synthetig yn cynnwys cynhyrchion sy'n deillio o asidau organig, asid ocsalig a fformig, neu'r olew naws,

thymol. Dylech ddefnyddio'r gwiddonladdwyr fel y driniaeth dewis cyntaf gan nad oes unrhyw adroddiadau am widdon yn datblygu ymwrthedd iddynt.

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer gwiddonladdwyr bob amser. Dim ond drwy eu defnyddio'n gywir y gellir sicrhau effeithiolrwydd a diogelwch y cynnyrch. Mae gan bob cynnyrch ganllawiau a chyfyngiadau gwahanol o ran eu defnyddio. Er enghraifft, mae rhai gwiddonladdwyr yn llai effeithiol ar nythfeydd mwy o faint tra bod angen defnyddio rhai eraill ar nythfeydd mwy o faint oherwydd gallant orddosio nythfeydd sy'n rhy fach.
- Mae'n ofniad cyfreithiol cadw [cofnod](#) o gynhyrchion lladd gwiddon a ddefnyddir ar nythfeydd, gan gynnwys: enw'r cynnyrch, pryd y cafodd ei brynu, y dyddiad y cafodd ei ddefnyddio, rhif y swp a'r dull o'i waredu. Rhaid cadw'r cofnodion hyn am o leiaf bum mlynedd, hyd yn oed os na fydd y nythfa a gafodd ei thrin yn eich meddiant mwyach.

### Gwaredu

- Sicrhewch fod gwiddonladdwyr a ddefnyddiwyd yn cael eu gwaredu mewn ffordd gyfrifol.
- Gall stribedi o blaleiddiaid synthetig, megis Apivar neu Apistan, gynnwys rhywfaint o gynhwysyn actif o hyd, hyd yn oed ar ôl i'r cynnyrch fod yn y cwch gwenyn am y cyfnod trin a argymhellir. Mae hyn yn golygu y gallant halogi'r amgylchedd os na chânt eu gwaredu'n gywir. Nid ydynt yn addas i'w gwaredu fel gwastraff cartrefi a dylech fynd â nhw i ganolfan ailgylchu neu waredu gwastraff leol er mwyn iddynt gael eu gwaredu'n broffesiynol.
- Dylai unrhyw wastraff sy'n cynnwys gweddillion thymol gael ei waredu mewn canolfan ailgylchu neu waredu gwastraff gan nad yw thymol yn addas ar gyfer gwastraff cartrefi.
- Mae modd compostio'r cynhyrchion MAQS a Formic Pro, sy'n cynnwys asid fformig a gellir eu rhoi mewn pentyrrau compost, ond dylid eu cadw i ffwrdd oddi wrth ffynonellau dŵr, megis nentydd neu byllau.

### Argymhellion ar gyfer arferion gorau

- Dylech fonitro nythfeydd yn rheolaidd, o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a'u trin pan fo angen.
- Sicrhewch fod gwenyn gaeaf yn cael eu diogelu drwy fonitro nythfeydd, a'u trin os oes angen, ar ddiwedd mis Gorffennaf.
- Dylech osgoi plaleiddiaid synthetig a chanolbwytio ar ddefnyddio triniaethau â chynhwysion actif sy'n deillio o asidau organig neu thymol.
- Defnyddiwch gyfuniad o widdonladdwyr â thechnegau hwsmonaeth i reoli gwiddon yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Dim ond meddyginiaethau meddygol trwyddedig y dylech eu defnyddio i drin *Varroa*, a chadwch gofnod o'r defnydd a wnaed ohonynt am o leiaf bum mlynedd.
- Dylech gydgysylltu triniaethau â gwenynwyr cyfagos, oherwydd bydd gwiddon o nythfeydd sy'n chwalu yn ymledu i nythfeydd cyfagos.
- Dewiswch unrhyw nythfeydd gwenyn mêl yr ymddengys eu bod yn dangos ymwrthedd i *Varroa*. Cadwch y nythfeydd hyn i fagu breninesau.

### Deunydd darllen pellach

- I gael gwybodaeth fanylach am fioleg *Varroa* a sut i'w rheoli, darllenwch ein taflen gynghorol, '[Managing Varroa](#)'.

## A ydych wedi eich cofrestru ar BeeBase?



Mae BeeBase yn wasanaeth ar-lein AM DDIM a ddarperir gan yr Uned Wenyn Genedlaethol er mwyn helpu i'ch diogelu chi a'ch cyd-wenynwyr rhag plâu a chlefydau sy'n peryglu iechyd nythfeydd gwenyn mêl.

Os bydd achos o glefyd yn eich ardal, bydd tîm yr UWG yn defnyddio BeeBase i gysylltu â gwenynwyr lleol er mwyn trefnu archwiliadau rhagofalus i weld a oes unrhyw arwyddion o haint a rhoi cyngor ar beth i'w wneud.

Cofrestrwch heddiw ar: [www.nationalbeeunit.com](http://www.nationalbeeunit.com)

Lluniwyd y daflen hon fel rhan o'r Cynllun Gwenyn Iach. Nod y Cynllun Gwenyn Iach yw ymateb i'r heriau y mae gwenynwyr yn eu hwynebu o ran cynnal iechyd gwenyn mêl a gwenyna yng Nghymru a Lloegr. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan lywodraethau, gwenynwyr, eu cymdeithasau a rhanddeiliaid eraill.

I gael gwybodaeth am y Cynllun Gwenyn Iach, ewch i:

<https://www.nationalbeeunit.com/cy/gwella-iechyd-gwenyn/cynllun-gwenyn-iach-2030/>



(h) Hawlfraint y Goron 2024

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu e-bostiwch [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Diogelu Data:

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Personol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod:

National Bee Unit, National Agri-Food Innovation Campus, Sand Hutton, York. YO41 1LZ. Ffôn: 0300 303 0094, e-bost: [nbuoffice@apha.gov.uk](mailto:nbuoffice@apha.gov.uk), gwefan yr UWG: [www.nationalbeeunit.com](http://www.nationalbeeunit.com)

[www.gov.uk/apha](http://www.gov.uk/apha)

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.